Cofnodion y **Pwyllgor Amwynderau** a gynhaliwyd yn
Neuadd y Dref, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos Lun, 7 Ionawr 2019 am 7:30p.m.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Jim Bryan, Anne Roberts, Dave Snape ac Emrys Wynne.

68. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Gavin Harris a Menna Jones. Gan fod y Cadeirydd yn absennol cynigiwyd bod y Cynghorydd Ian Lewney'n cadeirio'r cyfarfod a chytunwyd ar hyn yn unfrydol.

69. DATGAN BUDDIANNAU

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

70. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

***PENDERFYNWYD**: cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2018 yn gywir.*

71. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

72. GOLEUADAU NADOLIG 2019

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cais gan griw o drigolion a oedd yn awyddus i godi arian i ychwanegu at yr arddangosfa goleuadau Nadolig yn 2019 ac yn gofyn i ychydig o gynrychiolwyr ddod i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Amwynderau i drafod eu syniadau. Gofynnodd yr aelodau pwy oedd wedi cyflwyno'r cais, gan fod rhai busnesau yng nghanol y dref wedi crybwyll eu bod yn dymuno gwneud hyn, a dywedwyd eu bod yn gobeithio y gallai pawb weithio gyda'i gilydd. Gofynnwyd iddynt gyflwyno eu cynigion yn ffurfiol yn ysgrifenedig, gyda chostau, i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf.

***PENDERFYNWYD**: cysylltu gyda'r trigolion i ofyn iddyn gyflwyno eu cynigion yn ffurfiol yn ysgrifenedig, gyda chostau, i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf.*

73. GRŴP TREF TACLUS

Cadarnhawyd y byddai sesiwn nesaf y Grŵp ddydd Sadwrn, 19 Ionawr 2019.

***PENDERFYNWYD**: nodi'r wybodaeth.*

74. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

***PENDERFYNWYD**: mai dyddiad y cyfarfod nesaf y Pwyllgor fyddai nos Lun, 11 Chwefror 2019 am 7:30pm.*